| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br><br>**Title:** | Poisi Llety Preswyll |
| **Fersiwn:**<br><br>**Version** | Rhagfyr 2024 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**berthnasol?**<br>**Who does this Policy relate to?** | Dysgwyr sy'n byw yn y Llety Preswyl yn Llysfasi |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): /<br><br>Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Polisi Llety Preswyl -*<br>*Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb* |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei*<br><br>*effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on<br><br>this policy to consider its effect on the Welsh accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br><br>**Document Owner:** | *Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr* | | |
| **Ymgynghoriad/**<br><br>**Consultation:** | Rhestrwch nhw / Please list<br><br>*Y Grŵp Diogelu* | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo /**<br><br>**Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu /<br><br>Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Enw'r Grŵp a'r Dyddiad /*<br><br>Name of group & date |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant /<br><br>Communications & Culture Committee: | | *22/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd /<br><br>Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg /<br><br>Audit & Risk Committee: | - |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau /<br><br>Curriculum & Standards Committee | - |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant /<br><br>Finance, People & Culture Committee: | *Ar y gweill 20 Mawrth 2025* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | *Ar y gweill 9 Ebrill 2025* |
| **Dyddiad Adolygu:**<br><br>**Review Date:** | *Rhagfyr 2027* | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu

Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff

Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

**Polisi Llety Preswyl**


| | |
|---|---|
| 1. Diben | 3 |
| 2. Cwmpas | 3 |
| 3. Prif Egwyddorion | 3 |
| 4. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 4 |
| 5. Safonau'r Gymraeg | 4 |
| 6. Geirda | 4 |

## Polisi Llety Preswyl

### 1. Diben

Mae lles y dysgwyr preswyl yn bwysig ac rydym wedi ymrwymo i ddilyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Llety gan golegau Addysg Bellach (Medi 2018) a chanllawiau gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Wrth fyw mewn cymuned wledig, y nod yw sicrhau bod lle byw, gofal a lles o ansawdd uchel yn cael eu darparu i bawb drwy gydol yr amser maen nhw'n ei dreulio yn y coleg.

Mae gan Goleg Cambria set glir o ddatganiadau wedi'u cyhoeddi yn y Llawlyfr a gyhoeddir i bob dysgwr yn flynyddol. Caiff adolygiadau eu cynnal yn rheolaidd i ddiweddaru'r datganiadau hyn.

### 2. Cwmpas

Nod Coleg Cambria yw cynnig amgylchedd croesawgar a chyfeillgar, sy'n iach, yn ddiogel ac yn gynhwysol yn y llety preswyl sydd wedi'i leoli ar safle Llysfasi. Mae diogelwch a llesiant dysgwyr yn flaenoriaeth allweddol gyda gwybodaeth yn cael ei darparu i ddysgwyr trwy Lawlyfr (Arhoswch wrth Astudio) i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ymrwymiad y Colegau iddynt. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr sy'n byw yn y llety sydd wedi'i leoli ar Safle Llysfasi.

### 3. Prif Egwyddorion

Rheolwr Diogelu a Phreswyl y Coleg sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol y llety, gyda chefnogaeth gan y tîm Gwasanaethau Myfyrwyr a chydweithwyr sy'n cymryd rhan yn rota dyletswydd y warden, gan sicrhau amgylchedd preswyl sy'n meithrin dysgu, hunanddatblygiad, hunan-barch a pharch at eraill.

Adran Adnoddau Dynol sy'n ymgymryd â recriwtio a chyflogi cydweithwyr yn ddiogel, sy'n cynnwys dilyn deddfwriaeth a sicrhau bod yr holl wiriadau cyn-gyflogaeth yn cael eu cwblhau yn unol â Polisi'r Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd.

Mae gan y coleg God Ymddygiad Myfyrwyr sy'n nodi'r disgwyliadau ymddygiad i'n holl ddysgwyr, gan gynnwys pan fyddant ar y safle neu oddi arno ac yn aros yn ein llety preswyl. Yn ogystal, mae'r Polisi Ymddygiad Cadarnhaol Myfyrwyr yn creu dull cadarnhaol o gynnal Cod Ymddygiad Myfyrwyr, ac yn sefydlu dull teg a chyson o ddelio ag ymddygiad annerbyniol a/neu gamymddwyn difrifol gan fyfyrwyr. Bydd unrhyw faterion ymddygiad sy'n codi yn y llety preswyl yn cael eu trin gan gydweithwyr Gwasanaethau Dysgwyr yn unol â Pholisi Ymddygiad Cadarnhaol Myfyrwyr a Gweithdrefn Ymddygiad Preswyl Llysfasi.

Mae gan y coleg weithdrefn glir ar gyfer adrodd ac ymdrin â dysgwyr coll sydd o dan 18 oed ac mae'n cynnwys rhieni/gofalwyr a'r gwasanaethau brys pan fo angen.

## 4. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae gan y coleg fynediad at y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a gafodd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei weinyddu gan y Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr. Mae hyn yn sicrhau nad yw dysgwyr sy'n dewis cael mynediad at y ddarpariaeth breswyl dan anfantais oherwydd problemau ariannol.

## 5. Y Gymraeg

Mae'r polisi hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd pob cyfarfod, gohebiaeth a gwasanaeth cymorth sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn cael eu cynnig yn Gymraeg.

Yn unol â safonau'r Iaith Gymraeg 92/92A, pan fydd myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr yn gwneud cais am lety preswyl, gallant fynegi dewis am lety (neu ran o lety) a fydd yn cael ei gadw ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Bydd hyn yn cael ei hyrwyddo i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr yn ystod y broses honno.

## 6. Cyfeiriadau

Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â:

- Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Polisi Recriwtio, Dethol a Phenodi
- Polisi Diogelu
- Polisi Prevent
- Cod Ymddygiad Myfyrwyr
- Polisi Ymddygiad Cadarnhaol Myfyrwyr
- Polisi Cronfa Ariannol Wrth Gefn
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Contractau Llety Preswyl (wedi'u llofnodi gan rieni)
- Protocol Ymddygiad Preswyl Llysfasi
- Llawlyfr Preswyl Llysfasi
- Gweithdrefn ar gyfer Plant Coll yn Llety Llysfasi
- Gweithdrefn Chwilio am Ystafell yn Llety Llysfasi
- Gweithdrefn Preswylwyr Coll (Dan 18) (Wedi'i dynnu o Gynllun Parhad Busnes tudalen 23)